

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 11eg Hydref, 2021**, yng Nghanolfan Bryn croes o 7.30 p.m. hyd 9.00 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Dylan Parry Jones (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr David Brunelli, Carys H. Evans, Elin Hughes, Glyn Roberts, Michael Strain, Carys E. Williams, Glenys Williams, Siôn Williams

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Gwenan Griffith, Ifor Owen, Y Cynghorydd Gareth Williams (Y Cynghorydd Sir)

47. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd yr aelodau i'r cyfarfod.

48. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

49. CADARNHAU COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y Cyngor 13eg Medi, 2021. Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glyn Roberts ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Siôn Williams.

Materion yn Codi

(a) Eitem 39 Cadarnhau Cofnodion – cymal eitem 37 Meddygfa Rhydbach, Botwnnog

Adroddodd y Clarc gan na dderbyniodd ond un ymateb i'w llythyr drafft anfonodd allan at yr aelodau nad oedd wedi ei anfon ymlaen i'r Feddygfa a gofynnodd am arweiniad.

Sylwyd fod ymateb mwy cadarnhaol i'r gwasanaeth ym Botwnnog yn ystod y mis diwethaf a theimlwyd y dylid eu hysbysu o hyn.

Datganwyd pryder hirdymor ynglyn â'r gwasanaeth petai gwaeledd ar y Meddyg neu'r staff cysylltiol, neu'r gwasanaeth yn dod o dan ormod o straen, a oedd canllawiau mewn llaw ar gyfer hyn.

Penderfynwyd anfon y sylwadau uchod ymlaen i Reolwr y Feddygfa ac hefyd Mabon ap Gwynfor, yr Aelod Seneddol dros Ddwyfor/Meirionnydd.

50. CEISIADAU CYNLLUNIO

Cyflwynwyd y ceisiadau a ganlyn:

(a) Cais C21/0866/32/LL – addasu adeiladau allanol yn ddwy uned gwyliau – Neigwl Ganol, Botwnnog.

(b) Cais C21/0915/32/LL – dymchwel dwy sied amaethyddol a chodi sied newydd yn eu lle – Fair View, Llangwnnadl.

Penderfynwyd cefnogi'r ddau geisiadau.

51. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

Penderfynwyd tynnu sylw'r Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd, at y materion a ganlyn:

(a) Y coed privets wedi tyfu ac yn cuddio'r arwydd 'Dim yn addas i Loriau' ar yr allt i fyny at Ty Newydd, Sarn Mellteyrn. Hefyd gofyn a fyddai modd cael symud yr arwydd i lawr yn nes i'r Neuadd er osogi i'r loriau orfod bagio'n ôl i'r briffordd.

52. **ARDAL NI 2035**

Cyflwynwyd e-bost a llythyr gan Swyddog Cefnogi Cymunedau Ardal Dwyfor, yn cynnwys dwy ddogfen 'Cyflwyniad Ardal Ni 2035 – Pen Llŷn' a 'Sut le ydi Pen Llŷn'. Eglurodd y Clarc fod y Swyddog Cefnogi yn gofyn i'r Cyngor ystyried y pwyntiau yn yr e-bost ac yna byddai'n barod i gyfarfod unai'r Cyngor drwy gyfrwng 'zoom' neu un neu ddau aelod yn unol â dymuniad y Cyngor.

Penderfynwyd

(a) Ymateb i'r cwestiynau fel a ganlyn:

1. Yn gyffredinol, sut ydych chi'n teimlo am ardal Pen Llŷn fel lle i fyw ar hyn o bryd:

a. Beth sy'n dda am yr ardal? (hyd at 5 peth)

*Amgylchedd braf i fyw ynddo
Ardal Gymraeg
Cymreictod yn gryf
Cymunedau a chymdogaeth dda
Harddwch ar ei orau ym Mhen Llŷn*

b. Beth sydd ddim mor dda am yr ardal? (hyd at 5 peth)

*Gorddibyniaeth ar dwristiaid
Prisau tai
Diffyg tai i bobl ifanc
Cyflogau isel a diffyg gwaith
Pethau da i gyd o dan fygythiad
Mwy o bwyslais yn cael ei roi ar iaith a diwylliant – mwy o brosiectau efallai*

2. Dychmygwch yn y flwyddyn 2035 eich bod yn byw yn yr ardal ddelrydol. Beth fyddai wedi newid er mwyn i hyn ddigwydd? (adnabod 3-5 maes blaenoriaeth. Wrth ddod i'ch casgliad, mae croeso i chi ystyried yr ystadegau a'r penawdau yn y ddogfen 'Sut le ydi Pen Llŷn' oedd hefo'r e-bost 11/08)

*Swyddi da a chartref eu hunain ym Mhen Llŷn – mae pobl Cymru eisiau cartref am eu hoes ond mae dieithriaid yn mynd ac yn dod
Cyfle i deuluoedd gael addasu eu adeiladau allanol i'w plant gael cartref, nid fel ac y mae ar hyn o bryd, ceisiadau yn cael eu gwrthod ond yn cael eu caniatáu petai'r cais yn cael ei roi i mewn ar gyfer llety gwyliau.
Cydbwysedd ar ddibyniaeth ar dwristiaeth
Creu diwydiant er cael swyddi da a chyflogau uwch – ar hyn o bryd y safon addysg yn well ar y cyfan yma ond nid yw'r swyddi/cyflogau yn adlewyrchu hynny*

3. a. Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen?

Llywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd

b. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?

Na

(b) Gwahodd Alys Lloyd Jones, Swyddog Cefnogi Cymunedau, Ardal Dwyfor, i gyfarfod nesaf y Cyngor drwy gyfrwng 'zoom' Nos Lun, 8fed Tachwedd, 2021 am 7.00 y.h.

53. **MATERION IECHYD**
Nid oedd unrhyw fater wedi dod i sylw'r Cyngor i'w anfon ymlaen at Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.
54. **AWDURDOD I DALU**
Nid oedd unrhyw daliad yn ddyledus.
55. **YMGYNGHORIAD AR DRETHI LLEOL AR GYFER AIL GARTREFI A LLETY HUNANARLWYO**
Penderfynwyd mynegi y dylai trethi ar gyfer ail gartrefi a llety hunanarlwyo adlewyrchu hynny a chadw mewn côf y bobl sy'n byw drwy'r flwyddyn ac yn talu eu treithi'n llawn am y gwsanaeth a gynigir.
56. **YMGYNGHORIAD ADRAN DRAFNIDIAETH LLYWODAETH Y DG AR Y DEFNYDD PERYGLUS O FADAU DWY PERSONOL (Jet Skies)**
Cyflwynwyd llythyr gan Liz Saville Roberts, AS Dwyfor Meirionnydd yn tynnu sylw at "ymgyngoriad cyfredol gan Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y Deyrnas Gyfun parthed cryfhau gorfodaeth cyfreithiol mewn perthynas a defnydd peryglus o fadau dŵr hamdden a phersonol."
Nodwyd yn y llythyr fod Cyngor Gwynedd "wedi galw yn Hydref 2020 ar Lywodraeth San Steffan i greu deddfwriaeth i reoli badau pŵer a cherbydau dŵr personol ar y môr yn yr un modd a beiciau modur ar y tir. Hynny yw bod pob jet ski yn gorfod cael trwydded ac yswiriant cyn ei defnyddio ar y môr a bod pob gyrrwr yn cael prawf ar ei allu i drin y peiriant ac yn cael prawf ar ei wybodaeth o reolau mordwyo."
Penderfynwyd ymateb i'r ymgynghoriad a chefnogi'r galwad sydd gan Gyngor Gwynedd yn unol â'r uchod.
57. **GWRTHWYNEBU CEISIADAU CYNLLUNIO AR SAIL PERYGL I'R GYMRAEG**
Cyflwynwyd, er gwybodaeth, llythyr Howard Huws, Cylch yr Iaith – copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen.
Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.
58. **MEDDYGFA RHYDBACH, BOTWNNOG**
Cyflwynwyd cais gan Feddygfa Rhydbach am wirfoddolwyr ar ddydd Sadwrn, 16eg, 23ain a'r 30ain Hydref – hyn pan fydd clinig brechiadau COFID yn cael eu cynnig i gleifion.
Nodwyd fod Y Cyngorwyr Glyn Roberts a Michael Strain eisioes wedi gwirfoddoli a bellach derbyniwyd dwy aelod arall yn cynnig eu gwasanaeth sef Y Cyngorydd Gwenan Griffith a'r Cyngorydd Elin Hughes.
Nodyn ar ran y Feddygfa - diolchodd Mrs. Mary Williams am y gefnogaeth dderbyniwyd gan y Cyngor a'u bod yn gwerthfawrogi hynny.
59. **MYNWENT LLANDEGWNING**
Cyflwynwyd adroddiad o Is-bwyllgor Y Fynwent gynhaliwyd yn gynharach ar y noson. Yn bresennol "roedd Y Cyngorwyr Carys H. Evans, Dylan Parry Jones (Cadeirydd) a Glyn Roberts gyda'r Cyngorydd Ifor Owen yn ymddiheuro.
Deallwyd fod giât y Fynwent mewn cyflwr gwael ac i'r Cyngorydd Glyn Roberts eisioes geisio ei hymgeleddu fel ei fod yn agor a chau yn weddol rwydd dros dro.

Penderfynwyd argymhell i'r Cyngor fod hysbyseb yn cael ei roddi yn rhifyn Tachwedd o Llanw Llŷn yn gwahodd tendrau am gyflenwi a gosod giat(au) newydd ym Mynwent Llandegwnnig.

Trafodwyd adroddiad yr Is-bwyllgor gan y Cyngor a **phenderfynwyd** :

a) Gwahodd tendrau i gyflenwi a gosod giat(au) newydd ym mynedfa Mynwent Llandegwnnig.

Addawodd Y Cyngorydd Carys H. Evans byddai hi a'i gŵr yn ymweld â'r safle a thynnu lluniau er i'r Cyngor gael penderfynu ar arddull y giat(au) newydd.

b) Gwneud ymholiadau gyda AHNE er canfod a fyddai modd cael grant tuag at gael giatiau newydd i'r Fynwent.

60. **COMIN BRYNCROES**

Tynnwyd sylw at gyflwr y Comin ym Mryncroes a'r modd fod adeiladau dros dro wedi eu gosod ar y tir heb unrhyw ymgynghoriad â'r Cyngor.

Penderfynwyd ysgrifennu at ADRA Cyf. i holi pwy roddodd ganiatad iddynt ddefnyddio'r Comin yn y lle cyntaf ac hefyd sicrwydd y byddant yn adfer y tir i'r gyflwr blaenorol.

Addawodd Y Cyngorydd Glyn Roberts dynnu lluniau o'r Comin yn ei gyflwr presennol fel tystiolaeth ar gyfer y dyfodol.